

Arolwg Amrywiaeth a Chynhwysiant

HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

Y Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio

Comisiwn y Senedd yw'r rheolydd data ar gyfer y wybodaeth yr ydych yn ei darparu, a bydd yn sicrhau y caiff ei diogelu a'i defnyddio yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

Ein manylion cyswllt

Dylid anfon ymholiadau ynghylch ein defnydd o'ch gwybodaeth at y Swyddog Diogelu Data yn:

diogelu.data@senedd.cymru

0300 200 6565

Pa wybodaeth yr ydym yn ei chasglu?

Rydym yn gofyn i bobl roi adborth ar ddull Comisiwn y Senedd o ymdrin ag Amrywiaeth a Chynhwysiant. I wneud hyn, rydym yn cynnal dau arolwg ar-lein gan ddefnyddio Microsoft Forms. Nod un o'r arolygon hyn yw ymgynghori â staff Comisiwn y Senedd, a nod y llall yw ymgynghori â'r cyhoedd. Nid ydym yn gofyn am eich enw na'ch manylion cyswllt a gellir llenwi'r arolygon hyn yn ddiennw. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd modd eich adnabod o'r wybodaeth a ddarperir gennych, megis drwy gwestiynau sy'n cael eu hateb mewn blychau testun agored neu drwy gyfuniad o atebion amlddewis.

Mae gwybodaeth sy'n ymwneud â dulliau amgen o ymateb i'r arolwg ymgynghori â'r cyhoedd, ac eithrio drwy Microsoft Forms, hefyd i'w gweld isod. Byddem yn eich annog i ymateb drwy un o'r dulliau amgen hyn os yw'n eich galluogi i roi eich adborth yn well. Os byddwch yn ymateb drwy ddull amgen, efallai y bydd modd adnabod pwy ydych chi.

Yn ogystal â chwestiynau'n ymwneud ag adborth cyffredinol ar ddull Comisiwn y Senedd o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant, byddwn yn gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan gwblhau gwybodaeth monitro amrywiaeth fel y gallwn nodi unrhyw dueddiadau yn yr ymatebion ac unrhyw gamau penodol y gallai fod angen i ni fynd i'r afael â hwy. Mae'r arolygon yn cynnwys cwestiynau ar ystod o nodweddion a chredoau (rhywedd, hunaniaeth o ran

rhywedd, hunaniaeth genedlaethol, ethnigrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran, anabledd, crefydd/cred) yn ogystal â chwestiynau ychwanegol ar gyfrifoldebau gofalu, patrymau gweithio a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Bydd pob cwestiwn yn cynnwys opsiwn "Mae'n well gennyf beidio â dweud".

Pam ydym yn ei chasglu?

Mae Comisiwn y Senedd yn ymdrechu i fod yn gyflogwr ac yn ddarparwr gwasanaethau rhagorol sy'n ymgysylltu â'n cyflogeion yn barhaus ac yn gwrandao arnynt, yn ogystal â'r Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd rydym yn eu gwasanaethu.

Mae Comisiwn y Senedd yn ddarostyngedig i oblygiadau cyfreithiol penodol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, fel dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn y Senedd roi sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal a dileu gwahaniaethu, ymhlith ffactorau eraill, wrth gyflawni ei swyddogaethau. Yn benodol, mae hyn yn golygu rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anfanteision a chymryd camau i ddiwallu anghenion y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol, a'u hannog i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus.

Yn benodol, rhaid i Gomisiwn y Senedd baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb ac adolygu'r rhain bob hyn a hyn, yn unol â rheoliad 5 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017.

Er mwyn ein helpu i gynhyrchu'r amcanion hynny a monitro'r cynnydd dilynol, mae'n hollbwysig i ni ymgysylltu â'n staff a defnyddwyr gwasanaethau i ganfod eu barn am amrywiaeth a chynhwysiant o fewn Comisiwn y Senedd a sut y gellid ei wella. Bydd prosesu'r data yn ein helpu i ddatblygu amcanion a chamau gweithredu ar gyfer ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd. Gellid targedu'r camau gweithredu hyn at staff i helpu Comisiwn y Senedd i hybu cynhwysiant yn ei weithlu, ac at y cyhoedd yn ehangach i fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu.

Hefyd, mae gan Gomisiwn y Senedd rwymedigaeth gyfreithiol o dan baragraff 8 Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud trefniadau priodol o ran cadarnhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan ystyried yr egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Mae swyddogaeth statudol Comisiwn y Senedd i ddarparu'r staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar y Senedd at ei dibenion yn arbennig o berthnasol, yn unol ag adran 27(5) o Ddeddf 2006. Mae llunio Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant effeithiol, yn ogystal â'r amcanion cydraddoldeb sy'n cyfrannu at y Strategaeth hon, yn cyfrannu at gadarnhau bod Comisiwn y Senedd yn gallu arfer ei swyddogaethau gan ystyried yr egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Sut i ymateb

Rydym yn annog unigolion a sefydliadau i gwblhau'r arolwg ar-lein drwy Microsoft Forms.

Mae'r arolwg ymgynghori â'r cyhoedd hefyd ar gael ar ein gwefan mewn laith Arwyddion Prydain (drwy fideo) ac fel fersiwn Hawdd ei Darllen. Rydym yn croesawu ymatebion i'r ddogfen Hawdd ei Darllen drwy e-bost neu gopi caled, ac ymatebion fideo mewn laith Arwyddion Prydain drwy e-bost. Bydd anfon ymatebion gan ddefnyddio fformatau amgen yr arolwg yn cynnwys gwybodaeth a allai arwain at eich adnabod, megis cyfeiriad e-bost neu ymateb fideo yr ydych yn ymddangos ynddo.

Fel gyda data personol arall a gesglir mewn ymateb i'r arolygon hyn, bydd angen rhannu'r wybodaeth hon gydag ychydig o aelodau dethol o staff. Er mwyn diogelu gwybodaeth bersonol, byddwn ond yn cadw crynodeb o'r adborth a roddir, yn gwneud yr adborth yn ddienw, ac yn dileu'r fideo a'r e-bost yn unol â'n cyfnod cadw. Ni fydd gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw y tu hwnt i'r cyfnod hwn.

Gellir dychwelyd ymatebion electronig atom yn **Amrywiaeth@Senedd.Cymru**

Gellir anfon ymatebion copi caled atom yn:

Tîm Amrywiaeth a Chynhwysiant

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1SN

Pwy fydd yn gallu cael gafael ar y wybodaeth?

Bydd yr ymatebion yn cael eu trin yn gyfrinachol a'r unig bobl fydd yn eu gweld yw aelodau o Dîm Amrywiaeth a Chynhwysiant Comisiwn y Senedd a nifer fach o staff yn y Gwasanaeth Ymchwil a fydd yn helpu gyda dadansoddi'r ystadegau.

A fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu â thrydydd partiön, neu'n cael ei chyhoeddi?

Ni rennir y wybodaeth gydag unrhyw drydydd parti. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio'n fewnol i ddadansoddi data, ac ni fydd yn cael ei chyhoeddi.

Ble bydd y wybodaeth yn cael ei chadw?

Bydd y wybodaeth yn cael ei storio'n ddiogel ar ein systemau TGCh, sy'n cynnwys gwasanaethau cwmwl trydydd parti a ddarperir gan Microsoft. Mae unrhyw drosglwyddo

data gan Microsoft y tu allan i'r AEE yn dod o dan gymalau cytundebol lle mae Microsoft yn sicrhau bod data personol yn cael eu trin yn unol â deddfwriaeth ddomestig. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd Microsoft yn defnyddio dy wybodaeth, gellir darllen datganiad preifatrwydd y cwmni **yma**.

Am ba hyd y cedwir y wybodaeth?

Bydd y wybodaeth gan ymatebwyr unigol yn cael ei storio am ddim mwy na 24 mis o ddiwedd y cyfnod ymgynghori, i'n galluogi i ddadansoddi'r data'n llawn, nodi tueddiadau demograffig, a'i defnyddio i lywio camau gweithredu yn y dyfodol. Bydd ymatebion gan sefydliadau sy'n ymateb mewn rôl broffesiynol yn cael eu cadw drwy gydol y Chweched Senedd. Fodd bynnag, bydd gwybodaeth monitro demograffeg bersonol yn cael ei thynnu o ymatebion sefydliadau ar ôl 24 mis.

Sut y byddwn yn cael gwared ar y wybodaeth?

Bydd y wybodaeth yn cael ei gwaredu yn ddiogel ar ôl diwedd y cyfnod cadw.

[Ein seiliau cyfreithiol dros gasglu, cadw a defnyddio'ch gwybodaeth bersonol](#)

Mae cyfraith diogelu data yn nodi seiliau cyfreithiol amrywiol sy'n caniatáu i ni gasglu, cadw a defnyddio eich gwybodaeth bersonol. At ddibenion prosesu'r data personol a ddarperir gennych, rydym yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol canlynol:

Mae angen prosesu'r data fel rhan o dasg a gyflawnir er budd y cyhoedd

Mae gan Gomisiwn y Senedd nifer o swyddogaethau statudol fel y nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn cynnwys darparu i'r Senedd y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i gyflawni ei dibenion, neu sicrhau eu bod yn cael eu darparu iddi. Er budd y cyhoedd, mae'n rhaid i Gomisiwn y Senedd arfer ei swyddogaethau gan roi sylw dyledus i'r egwyddor y dylid cael cyfle cyfartal i bawb. Fel y nodir uchod, mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu ymysg y cyhoedd, yn ogystal â hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn ei weithlu ei hun.

Yn benodol, drwy fynd i'r afael â rhwystrau i gyfranogiad ac ymgysylltu, mae hyn yn helpu i sicrhau bod gwaith ehangach y Senedd a'i chynrychiolwyr etholedig mor gynhwysol â phosibl o bob aelod o gymdeithas yng Nghymru, ni waeth beth fo'r amgylchiadau personol, y nodweddion a'r credoau a allai weithredu fel rhwystr i gyfranogiad ac ymgysylltiad.

Bydd y wybodaeth bersonol a ddarperir yn yr arolygon hyn yn helpu Comisiwn y Senedd wrth iddo ystyried sut i fynd i'r afael â'r heriau hyn, gan gynnwys trwy gyfrannu at ddatblygu ei Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Chweched Senedd.

Mae angen prosesu'r data hyn er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol.

Fel y nodir uchod, mae gan Gomisiwn y Senedd rwymedigaeth gyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb (fel llunio amcanion cydraddoldeb a'u hadolygu o bryd i'w gilydd), yn ogystal â rhwymedigaeth gyfreithiol benodol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i wneud trefniadau priodol o ran cadarnhau bod ei swyddogaethau'n cael eu harfer gan ystyried yr egwyddor y dylid sicrhau cyfle cyfartal i bawb.

Bydd y wybodaeth bersonol a ddarperir fel rhan o'r arolygon hyn yn helpu i sicrhau y gall Comisiwn y Senedd gyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol hyn, am y rhesymau a ddarperir yn yr hysbysiad hwn.

Data personol categori arbennig

Efallai y byddwn yn prosesu data personol categori arbennig os byddwch yn dewis eu darparu. Diffinnir data personol categori arbennig fel data sy'n cynnwys data sy'n datgelu hil neu darddiad ethnig, credoau crefyddol neu athronyddol, cyfeiriadedd rhywiol a data sy'n ymwneud ag iechyd.

Bydd data categori arbennig yn cael eu prosesu ar y sail ei bod yn angenrheidiol am resymau o fudd sylweddol i'r cyhoedd (fel y darperir ar eu cyfer gan Erthygl 9(2)(g) o GDPR y DU, a ddarllenir ar y cyd â pharagraff 8 o Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 2018 yn bennaf, yn ogystal â pharagraff 6 o Atodlen 1 i Ddeddf 2018).

Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Mae'r hawliau sy'n gymwys yn dibynnu ar y seiliau cyfreithiol rydym yn dibynnu arnynt i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol. Ni fydd yr hawliau hynny'n gymwys ym mhob achos, a bydd Comisiwn y Senedd yn cadarnhau a yw hynny'n wir ai peidio pan fyddwch chi'n gwneud cais.

Mae'r hawliau'n cynnwys yr hawl i ofyn am fynediad at eich gwybodaeth bersonol eich hun, a elwir weithiau yn 'gais gwrthrych am wybodaeth'.

Hefyd, mae gennych hawl i wneud cais gennym ni:

- bod unrhyw wybodaeth anghywir sydd gennym amdanoch yn cael ei chywiro (nodwch fod gofyn i chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am unrhyw newidiadau o ran eich gwybodaeth bersonol);
- bod gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei dileu (mewn rhai amgylchiadau);

- ein bod yn rhoi'r gorau i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol at ddibenion penodol neu mewn rhai amgylchiadau; a
- bod eich gwybodaeth yn cael ei darparu i chi neu drydydd parti mewn fformat cludadwy (eto, mewn rhai amgylchiadau).

Os hoffech arfer unrhyw rai o'r hawliau sydd gennych o dan ddeddfwriaeth diogelu data, neu ofyn cwestiwn neu wneud cwyn ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data gan ddefnyddio un o'r dulliau a nodir uchod, yn yr adran 'ein manylion cyswllt'.

Ceisiadau am wybodaeth a wneir i Gomisiwn y Senedd

Os gwneir cais am wybodaeth o dan ddeddfwriaeth mynediad at wybodaeth, mae'n bosibl y bydd angen datgelu'r wybodaeth a gawsom gennych yn llawn neu'n rhannol. Dim ond os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith y byddwn yn gwneud hynny.

Sut i gwyno

Gallwch gwyno i'r Swyddog Diogelu Data os ydych yn anhapus â sut rydym wedi defnyddio'ch data. Gellir gweld y manylion cyswllt uchod.

Yn dilyn cwyn, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon ar ein hymateb, gallwch hefyd gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dyma gyfeiriad y Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Rhif y llinell gymorth: 0303 123 1113